

# Siarad Dysgu Gwneud

Addysgu'ch plant am arian



Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan ddefnyddio gwybodaeth gan Made of Money, sef prosiect gan Quaker Social Action. Gwiriwyd yr holl wybodaeth yn y llyfryn hwn cyn ei gyhoeddi a hyd eithaf ein gwybodaeth mae'n gywir. Nid yw HelpwrArian yn gyfrifol am wallau, hepgoriadau neu wybodaeth efallai nad yw'n berthnasol mwyach. Gofynnwch am gyngor arbenigol os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch ynghylch unrhyw beth a drafodir yn y llyfryn hwn.

QUAKER SOCIAL ACTION

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Cyflwyniad

**Mae'r llyfryn hwn yn rhoi syniadau am ffyrdd o addysgu'ch plant am arian mor gynnar â thair oed. Chi yw prif athro eich plentyn o ran arian. Ond nid oes angen i chi fod yn arbenigwr i'w helpu. Gellir addysgu'r rhan fwyaf o'r hyn y mae angen i'ch plentyn ei ddysgu trwy weithgareddau dyddiol.**

Gall plant ddechrau dysgu am arian o oedran ifanc iawn. Mae llawer o'r hyn sydd angen iddynt ei ddysgu i reoli arian yn dda fel oedolion eisoes ar waith erbyn eu bod yn saith oed, er enghraifft dysgu aros am bethau. Gallant hefyd ddysgu sgiliau newydd wrth iddynt fynd yn hŷn, felly nid yw byth yn rhy hwyr i'w helpu.

Efallai eich bod yn credu na ddylai plant feddwl am arian nes eu bod yn hŷn ond mae hwn yn amser gwych i ddechrau. Yr allwedd yw ei gadw'n iawn ar gyfer eu hoedran.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i rannu'n bethau syml y gallwch eu gwneud gyda'ch plant o wahanol oedrannau. Hefyd mae syniadau am ffyrdd o ddysgu plant am siopa, arian digidol ac arian poced.

Ewch i'r adran Siarad Dysgu Gwneud ar wefan HelpwrArian am ragor o weithgareddau y gallwch eu gwneud gyda'ch plant.
**helpwrarian.org.uk/siarad-dysgu-gwneud**



**Cyn i chi ddechrau, os ydych wedi cymryd rhan mewn cwrs magu plant, efallai eich bod wedi siarad am empathi. Mae empathi yn enghraifft wych. Bydd plant yn gofyn am bethau, ac ar adegau yn cynhyrfu pan na allant gael yr hyn y maent ei eisiau. Yn lle dweud 'na' yn unig, dangoswch empathi iddyn nhw. Siaradwch am yr hyn maen nhw ei eisiau ac esboniwch pam na allan nhw ei gael. Mae dangos empathi yn eu helpu i wybod eich bod yn clywed ac yn deall.**

Er enghraifft, efallai y gallech ddweud:

*Gallaf ddeall eich bod wir eisiau hynny. Ni allwn ei brynu heddiw gan fod angen i ni gadw ein harian ar gyfer bwyd yr wythnos hon, ond a fyddwn yn ei ychwanegu at eich rhestr pen  blwydd?*

*Gallaf weld eich bod mor gyffrous eich bod wedi cynilo ar gyfer hynny!*

*Gallaf weld eich bod yn drist na chawsoch yr hyn yr oeddech ei eisiau. A gawn ni siarad amdano?*

*Gallaf weld nad ydych yn siŵr a ddylech gynnilo eich arian neu ei wario ar losin. Gallaf weld eich bod yn meddwl yn galed iawn am hyn.*



**Pwnc arall i'w ystyried yw canmoliaeth. Mae canmol plant yn helpu i gymell ymddygiad da ac yn dweud wrthynt eu bod ar y trywydd iawn gyda'u dysgu. Gallwch wneud hyn ag arian hefyd.**

Gallai enghreifftiau fod:

*Rydych yn gwneud gwaith da iawn yn cadw'ch arian yn ddiogel.*

*Rydych yn hael iawn.*

*Rydych yn gwneud mor dda am gynilo!*

*Fe wnaethoch wir feddwl yn galed am sut i wario'ch arian.*

*Diolch am wrando pan ddywedais na allem brynu hynny.*

*Fe wnaethoch wir fy helpu i arbed arian yn y siop heddiw. Diolch!*

# Addysgu'ch plant: 3–4 oed

**Ar yr oedran hwn, mae plant yn dysgu trwy chwarae. Mae defnyddio darnau arian a chwarae siop yn ffyrdd gwych o ddysgu iddynt sut i ddefnyddio arian.**

## Chwarae siop

Sefydlwch siop syml gan ddefnyddio teganau neu fwyd sydd gennych yn barod. Gallwch eu helpu i gael y gorau o'r gêm trwy:

- ei wneud mor real â phosibl trwy ychwanegu tagiau pris at eitemau yn eu siop, gan ddefnyddio darnau arian go iawn a phapurau arian, ac efallai til tegan
- dangos y gwahanol ddarnau arian a phapurau arian iddynt, a chyfrif arian i dalu am yr hyn rydych wedi'i brynu
- cadw arian mewn pwrs neu waled – mae hyn yn dangos iddynt fod arian yn rhywbeth i ofalu amdano.



## Chwarae

Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig chwarae gyda'n plant. Mae chwarae hefyd yn ffordd ddifyr o'u haddysgu am arian. Cofiwch am yr hyn rydych wedi bod yn siarad amdano yn eich cwrs rhieni. Dilynwch arweiniad eich plant; gadewch i'w dychymyg eich arwain. Wrth i chi archwilio addysgu eich plant am arian trwy chwarae, eglurwch sut mae arian yn gweithio a siaradwch am yr hyn rydych yn ei wneud. Yn ogystal â chwarae siop, gallwch wneud gemau gyda darnau arian, defnyddio chwarae rôl, ac adrodd straeon gyda'ch gilydd. Ond cadwch bethau'n ddifyr!

Gallwch hefyd ddangos iddynt y gwahanol ffyrdd y mae arian yn rhan o'ch bywyd.

- Nodwch pan fydd arian yn cael ei grybwyll mewn llyfrau neu ar y teledu a siaradwch am yr hyn sy'n digwydd.
- Prynwch flwch arian iddynt a siaradwch am pam ei bod yn bwysig cadw arian yn ddiogel.
- Rhowch ychydig o arian iddynt brynu rhywbeth, hyd yn oed swm bach iawn – gallwch eu helpu i gyfrif darnau arian i dalu amdano.
- Dangoswch iddynt sut mae peiriant arian yn gweithio
- Esboniwch nad yw popeth yn costio arian. Ewch â nhw i'ch llyfrgell lyfrau neu deganau lleol er mwyn iddynt allu gweld pa bethau y gallwch eu gwneud am ddim.
- Gwyliwch am hysbysebion – esboniwch sut y maent yn anelu at eich cael i wario arian.

Cofiwch ei bod yn iawn dweud na wrth eich plant pan ydynt yn gofyn am bethau. Gweler ein hadran Sut i ddelio â phoeni ar dudalen 16 am syniadau i wneud hyn yn brofiad dysgu.



# Addysgu'ch plant: 5-6 oed

**Daliwch ati i adeiladu ar yr holl bethau roeddech yn eu gwneud pan oedd eich plentyn yn iau. Erbyn hyn, gallwch hefyd esbonio sut mae arian yn gweithio a pham rydym yn cynilo.**

Mae'n amser da i'w haddysgu:

- sut i gynilo ar gyfer rhywbeth maent ei eisiau:
- sut i gael y gwerth gorau am arian
- y gwahaniaeth rhwng dymuniadau ac anghenion
- bod talu am bethau ar lein hefyd yn costio arian
- sut i wario llai, drwy ddiffodd goleuadau neu brynu llai o bethau.

Gallech hefyd feddwl am roi symiau bach o arian poced neu dalu eich plentyn am wneud mân dasgau o gwmpas y tŷ. Gweler ein hadran ar Arian poced ar dudalen 14 i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Mae plant yn dysgu trwy wylio a gwrando. Mae plant pump a chwech oed yn dysgu llawer o wylio a gwrando. Siaradwch am arian a dangoswch iddynt sut mae'n cael ei ddefnyddio gartref.

## Gartref

Mae llawer o weithgareddau bob dydd gartref y gallwch eu gwneud i'w helpu i ddysgu am arian:

- Defnyddiwch gemau chwarae rôl i'w helpu i arbrofi â gwneud penderfyniadau am arian mewn ffordd ddifyr a diogel. Mae gemau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysgu am arian yn cynnwys:
- Gofyn iddynt chwarae rôl siopa, gan gynnwys perchennog siop, cwsmer a rhiant/gofalwr.
- Gofyn iddynt smalio mai chi ydynt, talu am siopa, biliau, a phethau y maent yn gofyn amdanynt.
- Cynlluniwr partïon – rhowch swm o arian iddynt, ychwanegwch labeli pris i brynu bwyd a diod (neu printiwch luniau o'r cyfrifiadur), a gofynnwch iddynt drefnu parti gyda'r arian sydd ganddynt. Bydd angen iddynt wneud yn siŵr bod gan bawb bopeth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys plant, oedolion ac anghenion deietegol gwahanol.
- Os byddant yn eich clywed yn siarad am arian â rhywun arall, gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr hyn a glywsant.
- Os yw rhywun yn gwario neu'n cynilo arian ar y teledu neu mewn ffilm, gofynnwch gwestiynau iddynt amdano.
- Eglurwch sut nad yw popeth yn costio arian, megis chwarae yn y parc neu fynd i'r llyfrgell neu dŷ ffrind. Gofynnwch iddynt pa weithgareddau am ddim y maent yn eu mwynhau.
- Os ydynt yn gofyn am bethau gyda lluniau o gymeriadau teledu, brandiau neu enwogion arnyn nhw, siaradwch am pam. Dangoswch ddewisiadau rhatach iddynt i weld a allant esbonio beth sy'n gwneud eu dewis cyntaf yn well. Gan ddefnyddio arian go iawn, dangoswch iddynt beth y gallent ei arbed trwy brynu'r dewis rhatach a gofynnwch beth y gallent ei wneud â'r arbediad hwnnw.

# Addysgu'ch plant: 7–8 oed

**Mae plant yr oedran hwn yn dod yn fwy annibynnol. Gallant gynilo ar gyfer pethau a gwneud dewisiadau ynghylch sut maent yn gwario eu harian.**

Gallwch esbonio:

- y gwahanol ffyrdd o gadw arian yn ddiogel – gallwch siarad am a ydynt yn cadw eu harian mewn jar neu mewn banc
- am osod nodau cynilo – gadewch iddynt benderfynu ar beth y maent am gynilo ac yna eu helpu i gyfrifo faint o amser y bydd yn ei gymryd
- gallant ennill llog trwy ddefnyddio cyfrif cynilo – os yw'ch plentyn yn cadw ei arian mewn banc, dangoswch iddo sut y bydd yn ennill arian am ei gadw yno.

## Talu am hanfodion – gêm ynys anialwch

Lluniwch restr o bethau y gallech fod eu hangen a'u heisiau ar ynys anialwch, fel bwyd, dŵr, lloches, matsys, rhaff, teganau, llyfrau, ffôn, dillad, eli haul a melysion. Gofynnwch i'ch plentyn ddewis saith peth i fynd ag ef i'r ynys y bydd eu hangen arnynt i oroesi – nid y pethau yr hoffent eu cael.

Gallwch esbonio nad ydych yn byw ar ynys anialwch, ond bod yn rhaid i chi wneud dewisiadau am yr hyn rydych yn ei brynu.

Peidiwch â phoeni os bydd eich plentyn yn gwneud camgymeriad ac yn gwario ei holl arian. Mae hon yn ffordd dda iawn o ddysgu. Os ydynt yn prynu tegan ac yn sylweddoli nad oes ganddynt arian ar gyfer rhywbeth arall, byddant yn gwybod sut i gynilo a dewis y tro nesaf.

# Addysgu'ch plant: 9–11 oed

**Bydd eich plentyn yn mynd i'r ysgol uwchradd cyn bo hir ac efallai y bydd yn gwneud mwy o ddewisiadau ariannol ar ei ben ei hun. Erbyn yr oedran hwn, gall plant gymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli eu harian.**

Gallwch ddechrau eu haddysgu am dalu biliau, cyllidebu a sut mae credyd yn gweithio.

Gallwch ddangos iddynt sut i:

- talu bil, gan esbonio'r gwahanol ffyrdd o dalu – megis Debyd Uniongyrchol, talu'n fisol ac ychwanegu arian
- gwirio gwybodaeth ariannol sylfaenol megis derbynebau, biliau a datganiadau banc
- talu am bethau yn yr ysgol uwchradd – mae llawer o ysgolion yn defnyddio cardiau neu olion bysedd i dalu, esboniwch sut mae hyn yn gweithio.



## Cyllidebu

Bydd cyllideb, neu gynllun arian, yn eu helpu i ofalu am eu harian. Anogwch nhw i gadw cofnod o'u harian drwy ei ysgrifennu – faint sydd ganddynt ac ar beth maent yn ei wario. Gall hyn fod yn arian poced neu arian o benblwyddi. Edrychwch arno gyda nhw yn rheolaidd, efallai'n fisol. Siaradwch am sut deimlad yw gweld eu harian yn mynd i fyny neu i lawr.

Hefyd, gofynnwch iddynt feddwl beth fyddant yn ei wneud pan fyddant bron â rhedeg allan o arian ond nad ydynt i fod i dderbyn mwy.

Mae hwn hefyd yn gyfle da i ddweud wrthynt sut rydych yn cyllidebu i wneud yn siŵr bod gennych arian i dalu am filiau sydd ar ddod, pryniannau wedi'u cynllunio, a gweithgareddau.



## Benthyca

Nawr bod gan eich plentyn fwy o brofiad o ddefnyddio arian, gall ddeall sut mae benthyca arian yn gweithio. Gallwch esbonio pan fyddwch yn benthyca arian, rydych yn talu llog (arian ychwanegol). Mae hyn yn golygu eich bod yn ad-dalu mwy nag a fenthycwyd gennych yn wreiddiol. Mae hefyd yn bwysig esbonio'r problemau a allai godi os na allwch ad-dalu'r holl arian sy'n ddyledus gennych.


Mae hwn hefyd yn amser da i drafod pwysigrwydd cynilo a chael digon o arian ar gyfer diwrnod glawiog A'r annibyniaeth sy'n dod gyda chynilo a pheidio gorfod benthyca.

## Ffonau symudol

Gallai plant ddechrau gofyn am ffôn symudol. Chi sydd i benderfynu a ydych yn credu bod hyn yn iawn i'ch plentyn, ond gallwch siarad o hyd am sut rydych yn talu am un.

Gallwch esbonio:

- faint mae ffonau'n ei gostio
- sut mae contractau'n gweithio
- sut mae 'talu wrth fynd' yn gweithio
- beth sy'n digwydd pan ydynt yn rhedeg allan o gredyd neu'n colli'r ffôn.



Os ydych yn penderfynu cael ffôn iddynt, mae'n syniad da defnyddio'r cwestiynau hyn i benderfynu ar y rheolau ynghylch talu amdano.

Gwneud dewisiadau am arian - defnyddio eich pŵer personol

Ar yr oedran hwn gallwch esbonio i'ch plant y pŵer sydd ganddynt i wneud dewisiadau ariannol. Gallwch esbonio y gallai hyn olygu dewis:

- Prynu neu beidio â phrynu rhywbeth
- Cynilo arian
- Prynu eitem rhatach
- Newid i gwmni nwy neu drydan rhatach.
- Rhoi eich amser yn hytrach nag anrhegion sy'n costio arian
- Peidio â phrynu rhywbeth oherwydd mai dyma "y diweddaraf"



# Sut i drin poeni

## Beth i'w wneud pan yw eich plentyn eisiau rhywbeth nad ydych eisiau ei brynu

**Gall plant eich poeni trwy ofyn am bethau dro ar ôl tro neu eich anwybyddu pan ydych yn dweud na. Mae'n arferol i blant wneud hyn a chael stranciau os nad ydynt cael yr hyn maent ei eisiau – ond gall fod yn anodd peidio ag ildio i'r poeni.**

### Gall bod yn barod leihau poeni

Wrth i blant dyfu i fyny, byddant yn gwella ynghylch goddef siom a rhwystredigaeth. Mae'n sgil anodd i'w ddysgu ac mae'n cymryd amser, ond mae llawer y gallwch ei wneud i'w helpu i gyrraedd yno.

Un peth y gallwch roi cynnig arno yw cael sgwrs, cyn i chi fynd allan i siopa, am yr hyn y byddwch yn ei brynu a'r hyn na fyddwch yn ei brynu. Mae hyn yn golygu y gallwch ddweud na wrth bethau nad ydych eisiau eu prynu mewn sefyllfa fwy hamddenol, gyda'r amser sydd ei angen arnoch i esbonio pam nad ydych yn prynu rhywbeth. Hefyd, os ydynt yn cynhyrfu gallwch ddelio ag ef gartref, lle bydd gennych fwy o breifatrwydd.

Mantais arall o wneud hyn yw ei fod yn rhoi cyfle i'ch plentyn baratoi ei hun ymlaen llaw ar gyfer teimlo'n siomedig.
Dylai hyn olygu na fyddant yn cael eu llethu gymaint gan emosiynau cryf pan fyddwch yn dweud na wrth rywbeth y maent ei eisiau yn y siopau.

## Beth i'w ddweud wrth eich plentyn

Rydym i gyd yn ildio i boeni yn awr ac yn y man, ac nid yw hyn yn gwneud unrhyw niwed. Ond mae'n debygol eich bod hefyd wedi sylwi po fwyaf y byddwch yn ildio, y mwyaf y byddwch yn cael eich poeni. Yr allwedd i leihau poeni yw cael ychydig o strategaethau y gallwch eu defnyddio pan fydd eu hangen arnoch.

Os oes rhywbeth y maent yn ysu amdano a'ch bod eisoes wedi esbonio pam nad ydych yn ei brynu, gallwch roi cynnig ar:

- awgrymu y gallent wneud tasgau taledig i'w helpu i gynilo'n gyflymach
- ei ychwanegu at restr penblwydd (gallwch fynd trwy'r rhestr gyda nhw yn nes at yr amser os yw'n mynd yn rhy hir)
- cynnig gwobr iddynt os gallant roi'r gorau i'r hyn y maent yn gofyn i chi amdano - gall y wobr fod yn rhywbeth syml nad yw'n mynd i gostio'n ychwanegol, megis gadael iddynt ddewis pa ddanteithion rydych yn mynd i'w prynu
- esbonio eu bod yn gallu defnyddio eu harian poced i gynilo ar ei gyfer - gallech hyd yn oed ei ysgrifennu ar restr i wneud iddo deimlo'n fwy real.





# Arian poced a chynilo

**Mae arian poced yn un ffordd y gallwch addysgu gwerth arian i'ch plentyn. Mae hefyd yn ddewis personol ac efallai y byddwch yn dewis aros. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod rhoi hyd yn oed y swm lleiaf o arian i blant yn rheolaidd yn eu helpu i ddysgu sut i reoli arian.**

## Faint o arian poced ddylwn i ei roi?

Nid oes unrhyw swm cywir – gan y gall ddibynnu ar faint o arian sbâr sydd gennych a'u hoedran. Yr allwedd yw rhoi arian iddynt yn rheolaidd gan fod hyn yn eu helpu i ddysgu sut i gynilo a chyllidebu.

Os nad oes gennych ddigon o arian dros ben i roi arian poced, fe allech wirio a allai rhywfaint o'r arian rydych yn ei wario ar felysion, tretiau neu deganau gael ei ddefnyddio fel arian poced yn lle hynny.

Mae angen i chi hefyd benderfynu faint o gyfrifoldeb y maent yn barod ar ei gyfer. Meddyliwch am beth rydych am iddynt ei ddefnyddio, fel:

- eu holl dretiau, teganau, llyfrau a chylchgronau - neu dim ond am ychydig o bethau ychwanegol
- teithiau allan
- dillad
- biliau ffôn symudol
- anrhegion i deulu a ffrindiau.

Mae hefyd yn werth ystyried pryd y byddwch yn ei gynyddu. Gallech ei wneud ar eu pen-blwydd neu pan fyddant yn mynd i'r ysgol uwchradd neu'r ysgol ganol, neu'r chweched dosbarth.



## Rhoi arian poced yn gyfnewid am wneud tasgau

Gallech roi arian i'ch plant yn gyfnewid am wneud tasgau. Mae hyn yn eu helpu i ddysgu bod angen i chi weithio am arian fel arfer. Efallai y byddan nhw hefyd yn fwy tebygol o wneud tasgau!

Fodd bynnag, efallai na fydd y dull hwn yn gweithio i chi os ydych am ddefnyddio tasgau fel ffordd iddynt ddysgu bod angen iddynt helpu o gwmpas y tŷ. Efallai y byddai'n well gennych eu dysgu y dylent wneud tasgau oherwydd y gofynnir iddynt, nid oherwydd eu bod yn cael eu talu.

## Pa mor aml i roi arian poced

Mae pa mor aml y byddwch yn rhoi arian poced i'ch plentyn yn dibynnu ar faint yw ei oed, eich cyllideb a faint o gyfrifoldeb rydych chi am iddo ei gael.

## Rhoi arian poced rheolaidd

Mae rhoi swm o arian i'ch plentyn ei wario bob wythnos, pythefnos neu fis yn gyfle da iddynt:

- dysgu sut i gynilo a rheoli arian
- gwneud camgymeriadau gyda symiau bach o arian fel eu bod yn gallu darganfod beth nad yw'n gweithio'n dda
- dysgu gwerth pethau.

Dylai hefyd olygu na fydd eich plant yn gofyn i chi am gymaint o bethau, gan fod ganddynt eu harian eu hunain i'w wario.

## Rhoi pan fydd gennych arian sbâr

Mae rhoi arian i'ch plentyn pan fydd gennych rywfaint sbâr yn golygu nad oes rhaid i chi boeni am wario gormod ac mae'ch plentyn yn dal i gael y cyfle i ymarfer ag arian.

Ond mae'n golygu y gallent ei chael yn anoddach cynilo ar gyfer pethau gan na fyddant yn gwybod faint o amser y bydd yn ei gymryd iddynt gael digon o arian. Ac efallai y byddant hefyd yn dal i ofyn i chi brynu pethau iddynt.

## Newid pa mor aml rydych yn rhoi arian poced

Pan yw plant yn iau, mae rhoi symiau wythnosol yn eu gwneud yn gyfarwydd â gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch beth i wario arian arno.

Wrth iddynt fynd yn hŷn, gall lwfans misol eu helpu i gyllidebu dros gyfnodau hwy o amser, a allai eu helpu i baratoi ar gyfer rheoli benthyciad myfyriwr neu hyd yn oed gyflog.

## Cynilio

Gall cynilo gyda'ch gilydd fel teulu ddysgu'ch plentyn sut i aros am rywbeth y mae ei eisiau a gwerth arian. Gallwch gynilo arian ar-lein neu drwy ddefnyddio arian parod.

## Cynilo gyda'ch gilydd

Os ydych yn defnyddio arian parod, gallech ddefnyddio tri jar wedi'u labelu: ' tretiau', 'gwyliau' a 'tymor hir'.

Ar ôl i chi dalu am yr hanfodion, dangoswch i'ch plentyn yr arian sydd gennych ar ôl i'w roi yn y gwahanol gronfeydd. Gadewch iddynt roi'r arian i mewn a chyfrif faint sydd gennych. Pan ydych wedi cynilo digon, dangoswch y dewisiadau sydd gennych i gyd iddynt.

Gallwch wneud yr un peth ar-lein gan ddefnyddio gwahanol gyfrifon neu un cyfrif banc sy'n gadael i chi rannu'ch arian yn gategorïau gwahanol.



# Teithiau siopa gyda phlant

**Mae mynd â phlant i siopa'n ffordd wych o ddysgu sgiliau iddynt a fydd yn eu helpu i reoli eu harian eu hunain wrth iddynt dyfu i fyny.**

Gallant ddysgu:

- sut i gadw'ch arian yn ddiogel
- ffyrdd o dorri costau
- sut i wrthsefyll prynu pethau ychwanegol nad oes eu hangen arnoch.

## Cynlluniwch ymlaen

Mae teithiau siopa yn cyflwyno llawer o gyfleoedd bywyd go iawn i'ch plentyn ddysgu am werth arian. Ond gadewch i ni wynebu'r ffaith, gallant fod yn straen.

Mae llawer i'w jyglo – o'u cadw rhag crwydro a chofio beth sydd angen i chi ei brynu i osgoi gwario gormod.

Gall cynllunio ymlaen roi'r gofod sydd ei angen arnoch i ddysgu ychydig o sgiliau rheoli arian syml iddynt unwaith y byddwch allan, heb orfod delio â gwrthdyniadau nad oeddech wedi cynllunio ar eu cyfer hefyd.



## Paratowch

Mae llawer o ffyrdd y gallwch gynnwys plant wrth baratoi ar gyfer taith siopa. Er enghraifft, gallant:

- eich helpu i wneud rhestr mae hwn yn gyfle da i egluro pa bethau sydd arni sy'n 'anghenion' a pha rai sy'n 'ddymuniadau'
- cymryd rhan wrth ddewis beth i'w brynu, fel pa fyrbrydau neu ffrwythau yr hoffent eu cael
- gwirio'r cypyrddau gyda chi i weld beth sy'n dod i ben
- gweld faint o arian sydd gennych i'w wario.

## Cadw at y cynllun

Pan fyddwch yn cyrraedd y siopau, atgoffwch nhw am y rhestr a dangoswch iddynt beth rydych yn ei brynu yn gyntaf.

Wrth i chi fynd o gwmpas, esboniwch sut mae'r siop wedi'i gosod i'ch cael i brynu mwy.

Dangoswch iddynt y tactegau mae'r archfarchnadoedd yn eu defnyddio i'ch cael i brynu pethau nad ydynt ar eich rhestr:

- Mae hanfodion yn cael eu lledaenu ar draws y siop – mae'n rhaid i chi gerdded heibio llawer o demtasiynau i'w cyrraedd.
- Mae brandiau rhatach i lawr ar lefel isel gyda'r cynhyrchion drutaf ar lefel llygad.
- Mae cynhyrchion plant ar eu lefel nhw.
- Mae ffrwythau a llysiau yn aml wrth y fynedfa gan fod archfarchnadoedd yn gwneud elw mawr ar y rhain.

## Dysgu sut i wneud i arian fynd ymhellach

Gallwch ddangos i blant sut i wneud gwell penderfyniadau a'u helpu i deimlo'n rhan o'r broses trwy ofyn iddynt ddod o hyd i bethau ar y rhestr siopa. Anogwch nhw i:

- gwirio prisiau a dod o hyd i'r eitem rhataf – mae hwn yn gyfle da i siarad am ba eitemau rydych yn hoffi gwario llai arnynt a pha bethau rydych yn credu sy'n werth talu mwy amdanynt
- dod o hyd i gynhyrchion sydd wedi'u hanelu at blant – gofynnwch iddynt esbonio pam maent yn eu hoffi (mae hon yn ffordd wych o siarad am sut mae marchnata yn annog pobl i wario mwy)
- sylwi ar gynigion arbennig – gallwch esbonio mai dim ond os oes ei angen arnoch ei fod yn fargen dda.

## Wrth y ddesg dalu

Os ydynt yn blino erbyn hyn, gallai gadael iddynt wybod pa mor ddefnyddiol maen nhw wedi bod osgoi stranciau. Hyd yn oed pe byddent yn mynd yn grac pan na allent gael rhywbeth, canmolwch nhw am yr amseroedd y buont yn amyneddgar.

Cynhwyswch nhw wrth wirio'r siopa fel nad ydynt yn diflasu:

- Os ydych yn defnyddio arian parod, gofynnwch i'ch plant gyfrif yr arian a thalu. Gall plant hŷn gyfrifo faint o newid a gewch.
- Os ydych yn talu â cherdyn, esboniwch o ble y daw'r arian ar gyfer hyn.
- Dangoswch iddynt sut rydych yn cadw'ch cardiau a'ch PINs yn ddiogel.

## Siopa ar-lein

Pan ydych yn siopa ar-lein, hyd yn oed os na all plant eich gweld yn defnyddio arian parod, gallwch esbonio eich bod yn gwneud yr un pethau ac yn gwneud yr un penderfyniadau ag y byddech yn eu gwneud pe byddech yn y siopau. Siaradwch â nhw am yr hyn rydych yn ei wneud, fwrth i chi ei wneud.

Gallwch:

- gofyn i'ch plentyn gymharu prisiau a siarad am ba un yw'r gwerth gorau am arian
- chwilio am gynigion arbennig gyda'ch gilydd ond prynu nhw dim ond os oes eu hangen arnoch.
- clicio heibio'r cynigion a'r cynhyrchion ychwanegol sy'n cael eu hysbysebu ar ôl i chi orffen eich siopa – esboniwch mai dyma sut mae'r siop yn eich cael i brynu pethau ychwanegol nad oes eu hangen arnoch.

Mae siopa ar-lein hefyd yn rhoi cyfle i chi esbonio sut y gallwch gadw'ch arian digidol yn ddiogel. Gallwch ddangos y ddesg dalu iddynt ac esbonio nad ydych byth yn rhannu manylion eich cerdyn ag unrhyw un – mae angen cadw'r wybodaeth ar eich cardiau'n ddiogel, yn union fel arian go iawn.



# Esbonio arian digidol i blant

**Rydym yn prysur ddod yn gymdeithas heb arian. Mae llawer ohonom yn talu am ein siopa gyda chardiau debyd a chredyd, ac yn gwirio ein balans ar ein ffôn symudol. Er bod hyn yn gyflym ac yn hawdd i ni, gall fod yn anodd i blant ddeall ein bod yn gwario arian go iawn.**

## Sut i esbonio arian digidol i blant

### Dysgu sut mae arian digidol yn gweithio

Mae'n werth cymryd yr amser i esbonio arian digidol, fel eu bod yn deall nad ydych yn cael pethau am ddim pan fydych yn gwneud taliad heb arian parod.

Gall hyd yn oed plant ifanc iawn ddysgu sut mae arian digidol yn gweithio.

Gallwch ddechrau trwy esbonio'r pethau sylfaenol, megis:

- mae arian digidol yn ffordd o dalu am bethau heb ddefnyddio arian parod
- gallwch dalu gyda'ch ffôn, cerdyn neu watsh
- mae gan ffonau ap arnynt sy'n cysylltu â'ch cyfrif banc (dangoswch yr ap ar eich ffôn iddynt)

- mae cardiau'n tynnu arian allan o'ch cyfrif banc trwy ddarllenydd cerdyn (dangoswch nhw y tro nesaf y byddwch yn defnyddio digyffwrdd)
- eich cyfrif banc yw lle rydych yn cadw'ch arian
- gallwch hefyd ddefnyddio ap i symud arian o un cyfrif i'r llall a thalu am bethau rydych yn eu prynu ar-lein.

## Gwario cerdyn anrheg gyda'ch gilydd

Ffordd arall o ddangos i blant sut mae arian digidol yn gweithio yw trwy wario cerdyn anrheg gyda'ch gilydd.

Gan mai dim ond swm penodol o arian sydd ar gardiau anrheg, maent y ffordd ddefnyddiol iawn o ddysgu plant, ar ôl iddynt wario'r arian, ei fod wedi mynd.

Mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt:

- gwneud penderfyniadau am sut i wario eu harian
- penderfynu a ydynt am wario eu holl arian ar unwaith neu gynilo rhywfaint – gallwch ddangos y balans ar y cerdyn iddynt ac egluro faint fyddai ar ôl wedi iddynt dalu
- defnyddio desg dalu ar-lein drwy nodi manylion y cerdyn.

## Cael arian o beiriant arian parod

Y tro nesaf y byddwch yn tynnu arian parod o beiriant arian parod, siaradwch â'ch plentyn am beth sy'n digwydd:

- esboniwch sut rydych yn cadw'ch PIN yn ddiogel a pham nad ydych yn dweud eich rhif wrth neb
- dywedwch wrthynt faint rydych yn ei gael allan a dangoswch y papurau iddynt
- mynnwch dderbynneb fel y gallant weld eich balans yn gostwng.

# Meithrin ein hunain



**Rydym yn gwybod bod meddwl am hyn i gyd yn gallu teimlo fel tasg fawr, felly beth am fynd i wneud rhywbeth neis i chi'ch hun! Nid oes rhaid i ofalu amdanom ein hunain gostio arian.**

Dyma syniadau am bethau y gallech eu gwneud sy'n rhad neu am ddim.

- Mynd i gylchoedd chwarae
- Cael llyfr rydych yn ei hoffi o'r llyfrgell
- Gwrando ar gerddoriaeth
- Bath hyfryd
- Mynychu dosbarth difyr
- Paned o de
- Sgwrsio gyda ffrind
- Coginio rhywbeth rydych yn ei hoffi
- Cofleidiadau
- Gwylio DVD
- Ymuno â chlwb chwaraeon
- Picnic
- Cerdded
- Mynd i'r parc
- Gwneud pethau

Wrth i'ch plentyn dyfu, siaradwch ag ef/â hi am bwysigrwydd gofalu amdanom ein hunain a ffyrdd y gallwn wneud hyn nad ydynt yn golygu gwario arian. Nid oes angen i ni fynd i siopa i ymlacio - mae cymaint o ddewisiadau eraill!

# Ble i gael rhagor o wybodaeth

**Os yw meddwl am eich plant ac arian hefyd wedi gwneud i chi feddwl yr hoffech gael rhywfaint o help i reoli'ch arian chi, gallwn ni helpu.**

## HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y Llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian drwy roi arweiniad diduedd ar bensiynau ac arian i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

I gael arweiniad rhad ac am ddim a diduedd ar unrhyw ymholiadau ariannol neu bensiwn gallwch gysylltu â ni drwy ffonio ar:

**Arweiniad ar arian**

0800 138 3944 Llun - Gwener 8am-6pm +44 20 3733 3495 os ydych y tu allan i'r DU

**Arweiniad ar bensiynau**

0800 011 3797 Llun - Gwener 9am i 5pm +44 20 7932 5780 os ydych y tu allan i'r DU

Neu ewch i
**helpwrarian.org.uk**

Gwe-sgwrs:
**moneyhelper.org.uk/moneychat**
**moneyhelper.org.uk/pensionschat**

WhatsApp:
+44 7701 342744
(arweiniad ar arian)

Ymunwch â'n cymunedau ar-lein am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities**

I gael cymorth gyda dyled, gallwch hefyd ddod o hyd i gynghorydd dyled yn eich ardal chi ar wefan HelpwrArian:


**helpwrarian.org.uk/dyled**

Mae'r uchod i gyd ar gael yn Gymraeg drwy **helpwrarian.org.uk**

# Ac yn olaf ...

**Rydym yn gobeithio bod hyn wedi rhoi rhai syniadau newydd i chi am sut i addysgu'ch plant am arian.**

Cofiwch, chi yw athro gorau eich plentyn o ran arian. Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr, ond bydd cael sgyrsiau am benderfyniadau rydych wedi'u gwneud am wariant, sut i reoli arian, ffyrdd o gynilo, siopa, a sut mae arian yn gweithio, yn ddigon i addysgu'r hyn y mae angen iddynt ei wybod. Cadwch bethau'n syml, yn hwyl ac yn addas ar gyfer eu hoedran.



Cofiwch, mae helpu plant i ddysgu trwy reoli eu harian eu hunain yn allweddol. Efallai y byddant yn gwneud camgymeriadau, mae hynny'n iawn. Mae'n well eu bod yn eu gwneud nawr. Defnyddiwch gamgymeriadau fel cyfle i ddysgu a siarad am yr hyn y byddent yn ei newid y tro nesaf. A chofiwch, wrth i'ch plant dyfu, y bydd eu dealltwriaeth am arian yn tyfu hefyd, gan wneud addysgu am arian yn werthfawr iawn i'r ddau ohonoch.

**helpwrarian.org.uk**

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y sesiwn arian a'r llyfryn hwn. E-bostiwch eich syniadau at: **TLD@maps.org.uk**



Helpwr Arian

Darparwyd gan

Gwasanaeth Arian a Phensiynau